



Hanfod

ADRAN DAU

HANFOD BRYNIAU CLWYD

Mae Bryniau Clwyd yn ffurfio cadwyn 35km gogledd-de o fryniau tonnog yn ymestyn i 160 km sgwâr yn codi i 554 metr ar frig Moel Famau yn y canol. Mae'r brynau yn ymestyn o Ddyffryn Clwyd yn y gorllewin i droedfrynau Moryd Dyfrdwy yn y dwyrain; o Fryniau Prestatyn yn y gogledd i fwllch Nant y Garth yn y de.

I'w weld ar ei orau o Ddyffryn Clwyd, mae gweundir grugog agored yn llywodraethu'r caeau bychain a'r coedlannau ar y llethrau is. Mewn mannau mae creigiau carreg galch yn dangos mewn sgarpiau coediog deniadol ac ar ymylon yr ardal, mae tir amaethyddol ffrwythlon yn rhoi cefndir bugeiliol ysgafn i'r brynau.

Mae'r AHNE yn draddodiadol wedi bod yn gyrchfan i ymwelwyr dydd o Lannau Merswy a Sir Gaer, ac yn derbyn nifer fawr o ymwelwyr, yn enwedig y ddau Barc Gwledig yn Loggerheads a Moel Famau. Mae Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa yn rhedeg bron ar hyd y grib.



2. LANDMAP

Mae LANDMAP yn fethodoleg asesu tirwedd a ddatblygwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru i asesu gwerth tirweddau Cymru o ran daeareg, bioamrywiaeth, golwg, archaeoleg a hanes a diwylliant (5 agwedd). Mae arbenigwyr agweddau unigol yn categorïddio'r dirwedd a mapio'r wybodaeth yn system wybodaeth ddaearyddol. Mae LANDMAP yn cynnwys cyfoeth o wybodaeth a ddefnyddir o fewn y system gynllunio ac sy'n cynnig arweiniad i reoli nodweddion tirwedd a chymeriad. Cydlynwyd gwybodaeth o'r 5 agwedd unigol i gynhyrchu map cymeriad ardal.

Ymgwymerwyd ag astudiaeth LANDMAP ar gyfer y cyfan o Sir Ddinbych a'r AHNE. Mae crynodeb o'r astudiaeth hon wedi ei gynhyrchu fel Strategaeth Tirwedd Sir Ddinbych (2003). Mae'r ddogfen hon yn disgrifio'r gwahanol fathau o dirwedd ledled yr AHNE ac fe'i defnyddir fel sylfaen ar gyfer y disgrifiadau ardal tirwedd ddaearyddol sy'n dilyn. Bydd gwybodaeth yn y system LANDMAP yn helpu'r broses reoli o fewn yr AHNE trwy gydol oes y cynllun hwn.

2.1 Prestatyn i Rualt

Mae gan y darn gogleddol, carreg galch yn bennaf, lethrau sgarpiog serth gyda llwyfandir carreg galch o dir amaeth. Mae golygfeydd allan i'r môr ac i'r gorllewin i Eryri.

Mae'n cael ei weithio yn fwy dwys na gweddill yr ardal ac mae planhigfeydd bychain, coedlannau a gwrychoedd yma, gyda chreigiau yn dangos trwy'r tir. Mae chwareli calch mewn mannau. Mae pentrefi bach megis Gwaenysgor a Llanasa yn ychwanegu diddordeb i'r dirwedd ac mae'r Golden Grove Estate, parc hanesyddol, yn ychwanegu gwerth arwyddocaol i'r dwyrain o Waenysgor.

2.2 Rhualt i Fodfari

Dyma ran culaf y Bryniau, dim ond ychydig dros 1km o led ac yn cynnwys mannau o ucheldir tonnog. Mae'r grib yma yn is nag i'r de, ac mae'r rhan fwyaf wedi ei wella yn amaethyddol, gyda chaeau afreolaidd a gwrychoedd ac ambell wal gerrig. Mae Bwlch Chwiler, gyda'i chwareli tywod bach, yn nodi ffin ddeheuol yr ardal dirweddol hon.

2.3 Bodfari i Lanbedr Dyffryn Clwyd

Mae'r Bryniau ar eu gorau o Fwlch Chwiler i Lanbedr Dyffryn Clwyd ger Rhuthun. Yma mae'r grib ar ei huchaf, gyda bryniau grugog a gweundir gyda muriau carreg yn ffurfio'r brif dirwedd. Mae Moel Famau (554m), Moel y Parc (398m), Moel Arthur (455m) a Moel Fenlli (511m) yn dominyddu'r olygfa. I lawr y llethrau mae caeau bach gyda choed, gwrychoedd a choedlannau i'w gweld. Ar y llethr orllewinol mae'n syrthio'n sydyn i Ddyffryn Clwyd ond i'r dwyrain mae'r tir yn syrthio yn arafach o lawer. Mae'r ardal gyfan yn llawn cymoedd bychain, tra bo Afon fwy Alun yn crwydro trwy'r tir carreg galch i'r dwyrain o'r brif grib Silwraidd. Mae tair cronfa fechan ar yr ochr ddwyreiniol yn fân nodweddion tirweddol ac mae pentrefi megis Cilcain a Llanarmon-yn-lal yn rhoi amrywiaeth i'r dirwedd.

Lleolir Parc Gwledig Loggerheads dan greigiau carreg galch serth ger Afon Alun. Mae Canolfan Addysg Awyr Agored Cyngor Dinas Lerpwl yng Ngholomendy, mewn parcdir hanesyddol, gyferbyn â'r Parc Gwledig. Gellir cael mynediad i'r grib ar Lwybr Clawdd Offa a Pharc Gwledig Moel Famau lle mae'r golygfeydd panoramig yn arbennig o nodedig.

2.4 I'r De o Lanbedr Dyffryn Clwyd

Yma, mae'r bryniau yn gostwng mewn uchder ac mae'r dyffrynnoedd yn fwy coediog. Mae Nant y Garth yn union y tu mewn i ffin ddeheuol yr AHNE.


2.5 I'r dwyrain o Ddyffryn Alun

Mae'r rhan fwyaf dwyreiniol y tu hwnt i Ddyffryn Alun yn Garreg Galch Garboniferws a charreg faen, gyda chreigiau nodweddiadol gyda choedlannau mawrion arnynt. Mae tirwedd yr ardal hon yn cael ei heffeithio gan chwareli gweithredol.

3. DYLANWAD DYN

Mae dwylo dyn wedi effeithio tirwedd Bryniau Clwyd ers miloedd y flynyddoedd. Yn Ogof Pontnewydd, llai na 10 milltir o ffin yr AHNE i'r gorllewin o Lanelwy, mae olion pobl chwarter miliwn o flynyddoedd oed wedi eu canfod, ynghyd â chelfi carreg ac esgyrn anifeiliaid. Ers hynny, mae dylawad dyn – yn enwedig ar ôl diwedd yr oes iâ mwyaf diweddar oddeutu 12,000 blwyddyn yn ôl, yn amlwg ym mhob man, yn siapio'r glaswelltiroedd

A vertical collage of five scenic images from the Lake District. From top to bottom: a close-up of a butterfly on a flower; a field of purple heather; a man and child fishing in a lake; a large white manor house; and a field of red heather.



Map designed and produced by RJS Associates in association with Denbighshire Countryside Service.



carreg galch, y brynau grugog, y llociau a'r amgylchfyd adeiliedig mwy amlwg yn y pentrefi, adeiladau a diwydiant.

3.1 Cyfnod Cynhanesyddol

Mae tystiolaeth o anheddiad yn gyfyngedig ond efallai bod pobloedd yr Oes Efydd wedi defnyddio safleoedd bryngaerau dilynol – cafwyd hyd i fwyell Oes Efydd ym Moel Arthur a deiliadaeth Oes Efydd posibl ym Moel y Gaer gerllaw, yn Rhosesmor, Sir y Fflint.

Lleolir safleoedd Oes y Garreg yn y Bryniau, yn fwyaf nodedig Cae Gwyn ac ogofâu Ffynnon Beuno yn Nhremeirchion, gyda deunydd wedi ei ganfod yn dyddio o o leiaf 18,000 o flynyddoedd yn ôl. Mae'r rhain yn ffurfio cyfnod pwysig o ran deall helwyr-gasglwyr ym Mhrydain.

Mae celfi pobloedd Oes y Cerrig, wedi eu gwneud o siert yng Ngronant gerllaw, wedi eu canfod o amgylch yr AHNE. Cafwyd celfi Oes y Cerrig hwyr yng Ngwaenysgor, a gerllaw yn Gop Cairn yn Nhrelawnyd a all hefyd ddyddio o'r cyfnod hwn.

Mae'r Bryniau yn cynnwys nifer o henebion claddedigaethau'r Oes Efydd, yn dyddio o 2,000 i 800 CC. Mae tystiolaeth yn brin ond efallai bod pobl Oes Efydd wedi defnyddio safleoedd y bryngeyrydd, gan fod bwyell Oes Efydd wedi eu canfod ym Moel Arthur, a gweithgaredd tebyg ym Moel y Gaer, Rhosesmor.

Mae bryngeyrydd yr Oes Haearn ar ben y Bryniau yn nodwedd mwyaf amlwg a mwyaf cyfarwydd yr ardal, yn ffurfio rhan arwyddocaol iawn o dirwedd canol y Bryniau. Yn dyddio o oddeutu 800 CC i 43 OC, mae'r chwech yn amrywio o ran maint o'r fwyaf ym Mhenycloddiau i Foel Arthur sy'n llawer llai, ac maent yn dominyddu'r dirwedd nawr fel yn y gorffennol. Roedd eu



swyddogaeth yn amrywio, mae'n debyg, o fod yn amddiffynnol ac fel safleoedd arddangos, fel canolfannau rheoli ar gyfer tiriogaethau yn ymestyn dros Frynau Clwyd, ar draws y Dyffryn ac i fyny i'r brynau uwchben.

3.2 Cyfnod Rhufeinig 43OC – 410OC

Ychydig o dystiolaeth uniongyrchol sydd o'r Rhufeiniaid yn y Bryniau er bod yr ardal yn agos i Gaer, ac yn ddi-os roedd y Rhufeiniaid yn croesi'r Bryniau. Mae safleoedd Rhufeinig yn hysbys ym Mhrestatyn, Llanelwy a Rhuthun ac efallai iddynt gloddio am blwm yn Nhalargoch, Dyserth. Mae ffordd Rufeinig bosibl yn mynd heibio Parc Gwledig Loggerheads.

3.3 Oesoedd Tywyll a Chyfnod Canoloesol

Mae llawer o'r dirwedd a welir heddiw gyda phentrefi a ffermydd yn dyddio o'r cyfnod hwn. Mae eglwysi canoloesol yn llawer o'r pentrefi yn yr AHNE.

3.4 Cyfnod Ôl-Ganoloesol i'r Cyfnod Modern

Mewn blynyddoedd mwy diweddar, mae Bryniau Clwyd wedi gweld datblygu nifer o stadau parcdir mawr gan gynnwys Golden Grove a Cholomendy. Mae rhai wedi datblygu ar ôl hel cyfoeth yn deillio o ddiwydiannau lleol – plwm yn enwedig – ac mae olion hyn o hyd i'w gweld yn yr ardaloedd carreg galch. O'r pedwar cwt injan Cernyweg sydd ar ôl yn Sir Ddinbych, mae tri yn yr AHNE ac mae'r pedwerydd yn union y tu allan.



Trwy'r bryniau cafodd dwr ei harneisio i ddarparu ynni: ar gyfer cloddio plwm, yn enwedig ar Afon Alun, tra defnyddiwyd Afon Chwiler i yrru melinau corn, gweithfeydd tun, melinau papur a melinau pren. Ar yr adeg hon y dechreuodd cludiant yn y bryniau newid. Yn raddol mae rhwydwaith o lwybrau o gwmpas a thros Bryniau Clwyd wedi eu disodli wrth i'r defnydd o gerbydau modur gynyddu. Croesodd rheilffordd Bryniau Clwyd i'r gogledd.

Cafodd y rhyfel effaith ar y Bryniau hefyd. Lleolwyd safle abwyd, i ddenu sylw o'r canolfannau trefol a ffatrioedd arfau'r gogledd orllewin, ar lethrau Moel Famau yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Mae'r ganolfan reoli i'w gweld o hyd ar Fynydd Ffrith.


4 DAEAREG

Mae daeareg yn ddylanwad pwysig ar y tirffurf presennol sy'n deillio o effaith erydiad ar y gwahanol fathau o graig.

Mae asgwrn cefn canolog Bryniau Clwyd yn cynnwys siâl Wenlock Silwraidd hynafol, yn cynnwys siâl wedi ei blygu, cerrig mwd, ynghyd â bandiau o dywodfaen. Mae'r ffurfiadau yn amrywio o ran trwch, weithiau yn gannoedd o fetrau. Mae dosbarthiad a modd digwyddiad yn creu amrywiaeth yn nhirwedd y grib sy'n dod i ben yn sydyn yn y gorllewin gan ffawt Dyffryn Clwyd.

I'r dwyrain a'r gogledd mae Carreg Galch Garbonifferws sy'n rhoi topograffi carreg galch nodweddiadol o sgarpiau a cheunentydd. Mae'r garreg galch wedi ei hecsbloetio yn helaeth, ar gyfer ffyrdd yn bennaf, ond hefyd am y mwynau plwm, sinc ac arian. Mae'r creigiau yn ffurfio cyfres o sgarpiau cymysg, agored a choediog sy'n ychwanegu atyniad gweledol i'r dirwedd, yn enwedig o gwmpas Maeshafn a Dyffryn Alun.

Mae'r ddaeareg yn deillio o newidiadau hinsoddol a gweithredoedd iâ cysylltiedig dros y 1.6 miliwn o flynyddoedd diwethaf. Mae hyn wedi arwain at adneuo tywod a graean yn enwedig ar hyd yr ymyl ddwyreiniol a dyffrynnoedd yr afonydd, sydd hefyd wedi eu hechdynnu ar gyfer y diwydiannau adeiladu.



5 BIOAMRYWIAETH

Mae gan yr AHNE fioamrywiaeth cyfoethog ac amrywiol. Mae'r llystyfiant amrywiol hwn yn deillio o ddaear, topograffi ac arferion rheoli tir y gorffennol yn yr ardal. Mae llystyfiant lled-naturiol i'w canfod, gan gynnwys gweundir grugog, glaswelltir carreg galch, gwlybtir a choedlannau.

Mae nifer o safleoedd yn yr AHNE sydd â gwerth cadwraeth natur uchel. Mae saith Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbenig (SddGA) ac un ymgeisydd ar gyfer Ardal Gadwraeth Arbennig (cSAC). Mae safleoedd eraill wedi eu cydnabod a'u cofnodi yn yr atodlen Safleoedd Bywyd Gwylt y Sir sy'n cael amddiffyniad trwy gyfrwng cynlluniau datblygu. At hyn, mae pedwar safle Daearegol/Geomorffolegol Rhanbarthol Pwysig (RIGS) yn yr AHNE. Mae'r rhain yn cael eu gwerthfawrogi am eu pwysigrwydd addysgol, ymchwil, hanesyddol neu esthetig.

